Cofnodion o Bwyllgor Cynllunio a Dibenion Cyffredinol Cyngor Tref Llandeilo a gynhaliwyd ddydd Mercher, Ebrill 9fed, 2008 yn Neuadd y Sir, Llandeilo am 7.00 pm

Presennol: Y Dirprwy Faer Cyng Edward Thomas,
Cyng Colin Jenkins, Cyng Dawn Wallace, Cyng Fran Murphy,
Cyng Christopher Parish, Cyng Roy Davies,
Des Davies (Swyddog Technegol) Roger Phillips Clerc y Dref.

Ymddiheuriadau Y Maer Cyng Richard Wallace, Cyng Charlotte Leadbeater, Cyng Julia Jones

Cof 1/ Ebrill / 08 Ceisiadau Cynllunio i'w Penderfynu

E/18590 Estyniad deulawr i anheddle yn 6, Y Trallwng, Llandeilo
Sylw : Dim gwrthwynebiad cyhyd bod priffyrdd yn hapus nad yw gallu gyrwyr cerbydau wedi'u heffeithio ar y gyffordd. Hefyd mynegwyd rhywfaint o bryder ynglŷn ag a yw'r estyniad yn cydweddu â gweddill y datblygiad.

E/18720 Adeilad Rhestredig. Adnewyddu'r to diffygiol. Adnewyddu'r rendr allanol.
Addasu'r man cadw yn fan preswyl ychwanegol yn Myrtle Hill, Teras y Banc
Sylw : Dim gwrthwynebiadau.

Cof 2 / Ebrill/ 08 Penderfyniadau ar Geisiadau Cynllunio

Caniatawyd y ceisiadau cynllunio canlynol gan Bwyllgor Cynllunio CSC

E/17453 Newid defnydd stabl yn lle preswyl atodol yn Llwynhelig, Penybanc
E/18006 Dymchwel ac adeiladu cegin newydd. Tynnu to talcen yr aden Fictoraidd a gosod ymyl main er mwyn lleihau'r effaith yn Llwynhelig
E/18009 Estyniad ac addasu yn Llwynhelig
E/18173 Gwaredu amodau 5&6 o'r caniatâd a roddwyd ar gais E/13994 yn 11, Adeiladau'r Banc
E/18293 Estyniad llawr cyntaf ar yr estyniad llawr gwaelod sydd eisoes yn bodoli yn 48, Heol Newydd.

Cof 3/ Ebrill / 08 Ni thynnwyd unrhyw gynllunio yn ôl.

Cof 4/ Ebrill / 08 Ni chafwyd unrhyw Apeliadau Cynllunio

Cof 5 / Ebrill / 08 Cludiant a Phriffyrdd

1 Mae Heddlu Dyfed Powys wedi ateb ymholiad y Clerc mewn perthynas â'u sylwadau ar y cyfyngiadau aros yn Stryd y Bont. Wnaethant addewid i wneud ymholiadau pellach.
2. Mae'r Asiantaeth Cefnffyrdd wedi ysgrifennu gydag esboniad oherwydd bod Heol Rhosmaen i'w chau dros dro.
3. Mae Roger Williams, Asiantaeth Cefnffyrdd wedi trefnu bod yr arwydd sydd wrth ymyl y ffordd y tu allan i CK's i'w symud oherwydd ei fod yn rhwystro gyrwyr cerbydau rhag gweld yn glir. Bydd y Cyng Colin Jenkins yn monitro'r sefyllfa.
4. Mewn ymateb i lythyr gan y Cyngor, mae Anne Thomas o adain ffyrdd newydd LlCC, wedi ysgrifennu bod y dirprwy Prif Weinidog i ddatgan strategaeth Cludiant diwygiedig i Gymru fydd yn arwain at gyhoeddi diweddariad i Blaen Rhaglen Cefnffyrdd.

Cof 6 / Ebrill/ 08 Goleuadau
Adroddwyd i'r Swyddog Technegol fod yna nam ar olau stryd wrth ymyl Sweetmans.
Bydd y Cyng Fran Murphy yn gwneud ymholiadau i'r Swyddog Cynllunio a yw'r goleuadau ymwthiol sydd uwchben mynedfa 44, Heol Rhosmaen yn cydymffurfio â'r rheoliadau.

Cof 7 / Ebrill / 08 Doedd yna ddim materion Trwyddedu

Cof 8 / Ebrill /08 Doedd gan y Swyddog Technegol ddim i adrodd amdano.

Cof 9 / Ebrill / 08 Gohebiaeth

1. Llythyr gan y Swyddog Gorfodi Cynllunio yn rhoi manylion ei farn ar y gwaith atgyweirio sy'n cael ei wneud yn y Salutation Inn. Argymhellwyd y dylai'r Clerc ymateb trwy nodi fod y Cyngor ar ddeall y byddai ei benderfyniad ond yn achosi mwy o dagfeydd traffig oherwydd y diffyg parcio sydd ar gael yn Heol Newydd.
2. Llythyr oddi wrth Rhiannon Rowley. Nodwyd
3. Chwarae dros Gymru, cylchgrawn gan LlCC yn amlinellu manteision hamdden. Gofynnwyd i'r Clerc wahodd swyddog o CSC i roi cyflwyniad ar fannau Chwarae i Blant yng Nghyfarfod Gorffennaf o'r Pwyllgor Cynllunio fydd yn dechrau am 6.45pm

Cof 10 / Ebrill / 08 Doedd yna ddim rhagor o fusnes.

Gofynnodd y Cyng Roy Davies am gymeradwyaeth y Pwyllgor i fynd â gofyn i Philip James o'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol am syniadau ynglŷn â chadwraeth y coed ffawydd sydd ar hyd ymyl Parc Penlan. Rhoddwyd hyn.

Daeth y cyfarfod i ben am 8 pm